CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 11, 2024

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd**
**Nos Fawrth, Mehefin 11eg, 2024 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Gareth Ellis, Geraint Rowlands, Llinos Rowlands, Eleri Jones, Elfed ap Gomer, Delyth Lloyd Griffiths

**1. Ymddiheuriadau:** Gwenan Owen, Simon Evans

**2. Datgan diddordeb:** Neb

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 14, 2024**

Cynigwyd fod y cofnodion yn gywir gan Elfed ac eilwyd gan Geraint

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 14, 2024**

**5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (23/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda gwybodaeth Panel Annibynnol Cymru ar gyfer Gydnabyddiaeth Ariannol – Lwfansau Cynghorwyr at weithio gartref. Mae'r taliad yn £156 ac nid oes treth incwm i'w dalu. Mae angen i'r cynghorydd datgan yn ysgrifenedig (amgau mae templed i wneud hyn) ei fod yn gweithio o gartref yn rheolaidd .

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Balans yn y banc ar 29/4/2024: £8,847.80 (yn cynnwys praesept £5,000)

c. Roedd Geraint wedi cael ffurflenni mandad newydd gan y banc. Penderfynwyd rhoi'r holl aelodau ar y mandad.

**6. Archwilio**

a. Llythyr (24/5/2024) oddi wrth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn cynwys 'Adroddiad Archwiliad Mewnol' y Cyngor.

Nid oedd materion yn codi o'r adroddiad.

Ond, bydd angen rhoi cais i HMRC am ad-daliad TAW.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Gyda Archwilio Cymru angen cyfriflen banc hyd at mis Mehefin, bydd yr adroddiad

yn cael ei anfon iddynt mis Gorffennaf.

c. Bydd angen rhoi ‘Hysbysiad Archwilio’ ar ein gwefan ac ar ein hysbysfyrddau erbyn Mehefin 16 2024 i gyhoeddi’r hysbysiad am 14 diwrnod. Wedi’r 14 diwrnod mae angen cyhoedd archwilio’r dogfennau am 20 diwrnod rhwng Gorffennaf 1 a Gorffennaf 26 2024.

## 7. Mynwent Llanelltyd

a. Roedd cais wedi dod i gladdu llwch yn y fynwent a fyddai yn golygu gwaith ychwannegol. Cafwyd trafodaeth ar bwy oedd yn talu Arfon Owen am y gwaith. Byddai Geraint yn ceisio cael mwy o wybodaeth gan Henry.

b. Penderfynwyd gofyn i Arfon am amcanbris ar gyfer gwaith o greu lefelau yng ngwaelod y fynwent at ddiwenion claddu llwch.

c. Penderfynwyd cyfarfod yn y fynwent ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/65/330G. Amrywio Amod 2 ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/65/330C dyddiedig 01/06/2023 ar gyfer newidiadau i’r cladin allanol. Hafod Fach, Llanelltyd.

Nid oedd gwrthwynebad

## 9. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys dogfen o weithio yn ddigidol mewn cyfarfodydd.

b. Llythyr (23/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dogfen ‘Amserlen Camau y Cyfnod Cyn Etholiad’ sy’n rhoi gwybodaeth beth sydd ddim yn cael ei ganatau ei wneud gan gynghorau cymuned a thref yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad bydd ar Orffennaf 4.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

ch. Llythyr (30/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau dyddiadau hyfforddiant Mehefin, Gorffennaf a Medi.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

d. Llythyr (5/6/2024) oddi wrth Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros

Drafnidiaeth a Gogledd Cymru. Maent wedi sefydlu Rhaglen Wrando Genedlaethol i gael gwybodaeth leol ynglŷn â 20mya sydd wedi cael ei sefydlu ar ein ffyrdd. Os mae sylw angen ei roi i newid 20mya i 30mya, neu newid 30mya i 20mya, neu aros yn 20mya mae'r llythyr yn rhoi gwybodaeth pwy i gysylltu; os mae sylw maent angen rhesymau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r terfyn cyflymder yn Bontddu. Roedd Llinos Rowlands yn dweud mae yn rhan uchaf y pentref oedd yr angen mwyaf am gyfyngiad o 20mya ac awgrymwyd y dylid fynd yn ôl i 30mya o'r Half Way ymlaen i gyfeiriad Bermo. Roedd Delyth yn mynd i ofyn i Andrew Gregson am adolygiad o gyfyngiadau Bontddu.

**11. Bioamrywiaeth**

Roedd Geraint yn nodi fod angen torri a chlirio'r ardal ger yr hen bont ond y byddai angen i'r bolards gael eu rhoi yn ôl gyntaf er mwyn gallu cael gwell mynediad at y safle. Byddai dyddiad yn cael ei drefnu.

**12. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

1.Cais Cynllunio Bontddu Hall ddim yn cael ei Drafod yn Pwyllgor Cynllunio y Parc tan Mis Medi.

Aled Lloyd Y Parc yn dod I'r Cyngor Cymuned I drafod y cais ym Mis Gorffennaf 2024 am 7yh.

Mae Mr Pike Bontddu yn awyddus I wrando ar y drafodaeth cael cymorth i ddeall y drafodaeth yn y cyfarfod.

2.Caru Coed y Brenin. Y grwp wedi ei sefydlu fel grwp cymunedol a wedi cael grant o £15000 I wneud arolwg or posibilrwydd yn y lleoliad.

Cafwyd cyfarfod gyda Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru 15/5/24 lle y cafwyd adroddiad gan swyddog o gwmni Forestry England am ddyfodol y Canolfannau gwybodaeth yng Nghymru gan gynnwys Coed y Brenin. Roedd canmol mawr ir adroddiad yma er waethaf fod y gwybodaeth yn yr adroddiad yn sylfaenol iawn ar dadansoddiad yn brin iawn.

3.Cyflymdra yn ar y ffordd yn ardal Bro Cymer – Delyth wedi gofyn I Mabon ap Gwynfor am ei farn am y cam nesaf yn y cais i gael lleihau y cyflymdra ar y ffordd sydd yn rhan or rhwydwaith cefnffyrdd ac felly yn gyfrifoldeb i'r gweinidog yn y senedd Ken Skates.

4.Bydd Delyth yn trafod yr adolygiad cyflymder cenedlaethol(20mya) gyda Andrew Gregson 13/6/24 gan ganolbwyntio ar Bontddu yn arbennig.

Diweddariad – wedi trafod gyda Andrew a bydd polisi newydd Llywodraeth Cymru ddim ar gael tan Mis Gorffennaf 2024.Bydd angen i ni fel Cynghorydd a hefyd y Cyngor

Cymuned rhoi gwybod i Gwynedd beth yw y newid sydd ei angen. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ac os bydd gwrthwynebiad mi fydd y Pwyllgor Cynllunio yn dod i benderfyniad.

Gofynnodd am fab or newid sydd angen. Gweithrediad – anfon map or newid at Andrew.

5.Mater Ysbwrial Hengwrt Llanelltyd. Mae yr achos i fod cael ei gynnal 21/6/24 yn Llys y Goron Caerdydd.

6.Mater y bollards yn yr Hen Bont, Llanelltyd. Diolch I Geraint am fynd I nol y bollards or afon. Mae y bollards yn dystiolaeth yn yr achos posib. Mae y Cyngor yn dweud fod cost rhoi rhai Newydd yn y lleoliad yn £949.

7.Bydd Liz Saville Roberts yn ymgyrchu yn y ward gyda Delyth 20/6/24.

8.Clerc – Nid yw Glenda Thomas yn awyddus i wneud cais am swydd y clerc.

9.Ysgol Llanelltyd. Er i olau yn fflachio gael ei archebu I ochr Bontddu or Ysgol ers dros 1.5 mlynedd nid yw wedi ei rhoi yn ei le eto. Byddaf yn trafod y mater gyda Andrew Gregson 13/6/24.

Diweddariad – mae Andrew yn mynd i ymchwilio I weld lle mae y golau yn fflachio sydd wedi eu harchebu ers dros flwyddyn.

10.Mae etholwr o ardal Tai cynhaeaf wedi cael gwasanaeth Fibre llawn ar ôl cael cyngor i dderbyn gwasanaeth preifat drwy gwmni Rob Boynes.

**<u>13. Materion Brys</u>**

--------------------